# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 14 Rhagfyr 2020

## SL(5)679 – Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2020

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 1992 ("Rheoliadau 1992").

O dan Ran 2 o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mae'n ofynnol i awdurdodau bilio (yng Nghymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau 1992 yn cynnwys rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau hynny ar gyfer awdurdodau bilio Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1992 drwy ddefnyddio Atodlen 4 newydd (Ffigurau'r Boblogaeth Oedolion).

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988
**Fe'u gwnaed ar:** 27 Tachwedd 2020
**Fe'u gosodwyd ar:** 30 Tachwedd 2020
**Yn dod i rym ar:** 31 Rhagfyr 2020

## SL(5)680 – Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol) (Cymru) 2020

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adran 56 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("y Ddeddf") ac maent yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chynnwys sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yn y rhestr a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 56(2) o'r Ddeddf.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
**Fe'u gwnaed ar:** 26 Tachwedd 2020
**Fe'u gosodwyd ar:** 30 Tachwedd 2020
**Yn dod i rym ar:** 04 Ionawr 2021

# SL(5)687 – Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) (Diwygio) (Cymru) 2020

## Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) (Diwygio) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau") yn diwygio Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) 2007 o ran Cymru. Mae'r Rheoliadau hynny'n gosod rhwymedigaeth ar gynhyrchwyr i adennill ac ailgylchu gwastraff deunydd pacio er mwyn cyrraedd y targedau adennill ac ailgylchu a nodir yn Erthygl 6(1) o Gyfarwyddeb 94/62/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddeunydd pacio a gwastraff deunydd pacio.

Gwneir y Rheoliadau drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 93 a 94 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ("y Ddeddf"), sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â gosod targedau adennill ac ailgylchu gwastraff deunydd pacio lleiaf ar gyfer busnesau sydd o dan rwymedigaeth yng Nghymru. Trosglwyddwyd swyddogaethau cymwys yr Ysgrifennydd Gwladol yn Neddf 1995 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Mae'r Rheoliadau yn ddarostyngedig i weithdrefn ddirymu yn unol ag adran 93(11) a (12) o Ddeddf 1995.

Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli targedau adennill ac ailgylchu'r UE â thargedau ailgylchu yn unig ar gyfer cynhyrchwyr. Maent hefyd yn amrywio'r targedau ailgylchu deunydd penodol ar gynhyrchwyr sydd o dan rwymedigaeth ar gyfer papur, plastig, gwydr, alwminiwm, dur a phren yn ogystal â'r targed ail-doddi penodol ar gyfer gwydr. Mae'r dyraniad ailgylchu ar gyfer cynhyrchwyr bach ar gyfer 2018 i 2020 yn cael ei newid ar gyfer 2021 a 2022.

Nid oes dim targedau adennill yn cael eu pennu y tro hwn, sy'n golygu bod yn rhaid i gynhyrchwyr gyrraedd targedau ailgylchu yn unig ar gyfer gwastraff deunydd pacio i gyflawni eu rhwymedigaethau fel cynhyrchwyr cyfrifol. Bwriad hyn yw symud rheolaeth gwastraff i fyny'r hierarchaeth wastraff ac ar dargedau ailgylchu, fel ffordd o ddangos bod y rhwymedigaethau o ran cyfrifoldeb cynhyrchwyr yn cael eu cyflawni. Ystyrir bod canlyniad amgylcheddol gwell yn sgîl hwn ac mae'n dileu'r cymhelliant i ddeunydd fynd i weithgareddau sy'n is o ran yr hierarchaeth gwastraff. Mae dileu'r targed adennill hefyd yn cynnwys diwygiadau canlyniadol yn y Rheoliadau 2007 drwyddynt draw.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf yr Amgylchedd 1995
**Fe'u gwnaed ar:** 01 Rhagfyr 2020
**Fe'u gosodwyd ar:** 03 Rhagfyr 2020
**Yn dod i rym ar:** 01 Ionawr 2021

# SL(5)688 – Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020

## Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ("Gorchymyn 2007") yn nodi'r rheolau manwl ar gyfer cynnal etholiadau i Senedd Cymru.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 2007 i adlewyrchu newidiadau polisi a deddfwriaethol sydd wedi digwydd ers etholiad cyffredinol y Senedd yn 2016 i baratoi at etholiad cyffredinol y Senedd yn 2021.

Yn benodol, mae'r Gorchymyn hwn:

- yn gweithredu newidiadau sy'n codi o ganlyniad i'r newid enw, estyn yr etholfraint a'r meini prawf anghymhwyso a gyflwynwyd gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020,
- yn rhoi'r opsiwn i ymgeiswyr beidio â chyhoeddi eu cyfeiriad cartref yn etholiadau'r Senedd,
- yn gwneud newidiadau i'r modd y gwneir taliad i swyddogion canlyniadau ar gyfer gwasanaethau a roddwyd.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993
**Fe'u gwnaed ar:**
**Fe'u gosodwyd ar:**
**Yn dod i rym ar:** 17 Rhagfyr 2020